**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 29 Ionawr 2024 am 2.00 pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Wendy G Lewis (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Sefydliadau â Chynrychiolwyr**

| | |
|---|---|
| Moawia Bin-Sufyan | Care after Combat |
| Ruth Birch | Fighting With Pride |
| Is-gomander Andy | Y Llynges Frenhinol |
| Davies | Cadetiaid Môr Abertawe |
| Russ Davies | |
| Pat Dunmore | Cyngor ar Bopeth |
| Asgell-gomander Phil | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Flower | |
| Swyddog Gwarantedig | HMS Cambria |
| Dosbarth 1 Rob Govier | Hwb Cyn-filwyr Abertawe |
| Kisty Hanson | |
| Debbie Hamer | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Lance Higgen Young | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Calvin Hughes | CEF Abertawe |
| Phil Jones | So Fit/Veterans RV |
| Adrian Leslie | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Sophie Metcalf | |
| Michelle Mills | Alabare |
| Julian North | Help for Heroes |
| Y Cynghorydd Francesca | Cyngor Abertawe |
| O'Brien | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Dave Prior | Alabare |
| Ellis Robinson | |
| Paul Smith | Veterans RV |
| Tony Strutt | V-Aid |
| Stephen Sullivan | Hafal |
| Neil Tomlin | Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol |
| Capten Huw Williams | Sgwadron 157 |
| Simon Winspear | CGGA |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Marie Muldoon | Rheolwr Opsiynau Tai |
| David Price Deer | Rheolwr Digwyddiadau Arbennig |
| Natalie Ellis-Burt | Cydlynydd Ardal Leol |
| Spencer Martin | Cydlynydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Louise Fleet, Cllr Elliott King, Finola Pickwell, Wayne Jenkins, Steve Spill a Victoria Williams

**48 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim.

**49 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2023 fel cofnod cywir.

**50 Tai Cyngor Abertawe.**

Cyfeiriodd Marie Muldoon at y pwysau presennol sy'n wynebu Cyngor Abertawe mewn perthynas â'r cynnydd enfawr yn y galw am Dai Cyngor gan eu hamlinellu.

Amlinellodd fod yr adran y mae'n ei goruchwylio yn gyfrifol am weinyddu polisi dyrannu a gwasanaethau atal digartrefedd y Cyngor.

Amlinellodd nad oedd hi erioed wedi gweld galw mor uchel â hyn ac roedd hyn o ganlyniad i ffactorau amrywiol o fewn y sector tai gan gynnwys lleihau argaeledd tai cymdeithasol a phreifat, cynnydd mawr mewn costau rhenti eiddo preifat a llai o symud o ran pobl sy'n byw yn eiddo'r Cyngor. Roedd hyn yn effeithio ar bob awdurdod lleol ar draws Cymru. Mae'r galw am lety bron wedi dyblu yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Amlinellodd y system bwyntiau ar gyfer dyraniadau sydd gan Abertawe ar waith, sy'n cydnabod cyn-filwyr a'r bobl sy'n gadael y lluoedd, ond mae deddfwriaeth 'Pawb i Mewn' Llywodraeth Cymru wedi cael effaith fawr ar nifer y bobl sy'n gallu gwneud cais am dai.

Amlinellodd fod y Cyngor yn archwilio nifer o ffyrdd i gynyddu'r ddarpariaeth gan gynnwys prynu hen dai Cyngor yn ôl, cynyddu nifer y llety dros dro sy'n gallu sydd ar gael a helpu gyda rhent/blaendaliadau etc.

Amlinellodd y cysylltiad sydd gan yr adran â Charchar Abertawe a'r cynllun llwybr carcharorion sydd wedi bod ar waith ers 2015. Mae hyn yn cynnwys yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol amrywiol. Mae gan yr adran Swyddog Ailsefydlu Cyn-droseddwyr dynodedig sy'n ymdrin â'r materion hyn.

Cyfeiriodd at yr adolygiad parhaus o'r polisi dyrannu a'r arolwg y mae'r Cyngor yn ei gynnal, mae croeso i bob aelod o'r panel gymryd rhan a chânt eu hannog i wneud hynny. Gellir cael mynediad at yr arolwg trwy ddolen a fydd yn cael ei dosbarthu ar ôl y cyfarfod, sydd hefyd ar gael isod.
Arolwg dyrannu tai Cyngor: Dweud eich Dweud - Abertawe

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei chyflwyniad a'i diweddariad a diolchodd iddi am y gefnogaeth y mae'n ei rhoi iddi hi ac i aelodau eraill pan fyddant yn derbyn ceisiadau gan gyn-filwyr.

## 51 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.

Rhoddodd Spencer Martin ddiweddariad llafar a oedd yn ymwneud â'r meysydd canlynol yn absenoldeb Finola Pickwell;
Ar hyn o bryd mae un rhaglen cyllid grant sydd ar agor ar gyfer ceisiadau gan grwpiau;
Rhaglen Lleihau Digartrefedd ymysg Cyn-filwyr;
Mae *Kings College London (KCMHR)* yn chwilio am straeon go iawn ar gyfer oriel ar-lein o ddelweddau.
Mae manylion Cofeb Lluoedd Arfog LHDT bellach wedi'u cyhoeddi ynghyd ag argymhellion yr adolygiad.

Caiff y manylion llawn eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

Amlinellodd Ruth Birch fod y Llywodraeth bellach wedi derbyn 49 o argymhellion yr adolygiad, ac mae ffurflen gais ar-lein y gellir ei chwblhau. Unwaith eto, bydd manylion am hyn a dolen i'r ffurflen ar-lein yn cael eu hanfon at aelodau'r panel ar ôl y cyfarfod.

## 52 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Adroddodd y Capten Huw Williams fod llawer o bethau wedi digwydd ers cyfarfod diwethaf y panel, gyda phenwythnos y Cofio a'r holl weithgareddau Nadolig yr oeddent yn gysylltiedig â nhw.

Bu ychydig o ddigwyddiadau arwyddocaol mewn perthynas â dathliadau pen-blwydd yn 100 oed lle'r oedd Arglwydd Faer Abertawe yn garedig iawn wrth ganiatáu'r defnydd o'r Plasty i ddymuno pen-blwydd hapus i Mr David Jones, a wasanaethodd yn y Llynges Frenhinol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Cynhaliom wasanaeth eglwys hefyd ar gyfer Miss Kath Morris, un o weithwyr Parc Bletchley yn Eglwys Dewi Sant, Castell-nedd.

Gofynnodd i aelodau'r panel roi gwybod iddo os oes ganddynt unrhyw gyn-filwyr sy'n cyrraedd carreg filltir arwyddocaol yn eu sefydliadau, neu os ydynt yn gwybod am unrhyw un, fel y gellir trefnu dathliadau a phresenoldeb priodol lle bo hynny'n bosibl.

Ers cyfarfod diwethaf y panel mae pethau wedi bod yn brysur iawn ac mae llawer o bersonél yn paratoi i fynd i weithio tramor gyda thua 250 o filwyr wrth gefn o'r Fyddin wrth Gefn yng Nghymru yn paratoi i fynd i weithio yn Ewrop yn ystod y misoedd nesaf.

Yr wythnos diwethaf cynhaliwyd seremoni wobrwyo Arglwydd Raglaw Gorllewin Morgannwg lle cafodd 19 o bersonél o bob byddin wrth gefn, unedau cadetiaid ac elusennau eu canmol am eu gwaith caled a'u hymdrechion yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd hon yn noson braf iawn a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid.
Mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo i nodi 80 o flynyddoedd ers D-Day gan gynnal gwasanaeth yn Christchurch, Abertawe ar 9 Mehefin 2024. Gofynnodd a fyddai modd rhoi gwybod iddo os oes unrhyw ddigwyddiadau eraill sy'n cael eu cynllunio

gan unrhyw sefydliadau eraill i nodi 80 o flynyddoedd ers D-Day ac yna fyddai'n gallu eu cefnogi os byddai ar gael i wneud hynny.

Mae gwaith cynllunio hefyd yn mynd rhagddo ar gyfer dathliadau Sioe Awyr Genedlaethol Cymru a Diwrnod y Lluoedd Arfog a gynhelir dros benwythnos 6-7 Gorffennaf 2024. Caiff manylion ychwanegol eu cyhoeddi maes o law. Yn anffodus, o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol, efallai y bydd graddfa'r asedau sydd ar gael i gefnogi'r penwythnos yn cael ei leihau eleni.

Mae nifer da o elusennau milwrol wedi dangos diddordeb hyd yn hyn, a nododd ein bod yn edrych ar yr elusennau hynny sy'n darparu cefnogaeth i gyn-filwyr ac nad ydynt yn defnyddio'r digwyddiad i godi arian. Os mai codi arian yw'r prif nod, cysylltwch â thîm Digwyddiadau Arbennig Cyngor Abertawe a byddant yn gallu rhoi cyngor ynghylch y ffordd ymlaen.

I'ch atgoffa, rydym yma i'ch helpu a'ch cefnogi, ac yn ddiweddar mae Sgwadron 223 wedi gweithio gydag Ysgol Gynradd Baglan i'w galluogi i ennill y Wobr Arian ar gyfer Cefnogi Plant Milwyr Cymru. Mae hyn yn gyflawniad gwych i'r ysgol, a rhoddwyd llongyfarchiadau iddynt ar y wobr.

Coffáu Rhyddhau Kosovo: Roedd milwyr tir Prydain a NATO wedi helpu i ryddhau Kosovo o drefn dreisgar Milosovic ym Mehefin 1999. Gellir dadlau mai Ymgyrch AGRICOLA 1 oedd yr ymyrraeth dramor gwbl lwyddiannus olaf gan y Fyddin Brydeinig, ar raddfa, yn ystod y 25 mlynedd diwethaf. Heddiw, er gwaethaf gwrthdaro parhaus gyda'u cymdogion i'r gogledd, mae Kosovo yn ddemocratiaeth Ewropeaidd ffyniannus.

Bydd Kosovo'n dathlu 25 o flynyddoedd ers eu rhyddhau yn Pristina ar 12 Mehefin 2024. Rydym wedi cael ein gwahodd i fynd â rhai o gyn-filwyr Prydeinig AGRICOLA 1 i helpu i nodi'r digwyddiad hwn sy'n garreg filltir.

Bydd yr ymweliad hwn yn un answyddogol, a drefnir gan wirfoddolwyr, yn hytrach na digwyddiad swyddogol y Fyddin Brydeinig. Bydd disgwyl i'r rhai sy'n cymryd rhan drefnu a thalu am eu trafnidiaeth eu hunain - mae hediadau uniongyrchol o'r DU i Kosovo - ond rydym yn disgwyl i'n gwesteion yn Kosova ddarparu rhywfaint o lety.

Dylai unigolion a gymerodd ran yn AGRICOLA 1, ar y tir, sydd â diddordeb mewn cymryd rhan gysylltu â'r bobl isod gyda mynegiad o ddiddordeb, ac nad yw hyn yn rhwymol. Unwaith y byddwn yn derbyn rhagor o fanylion o'r ochr Kosofaidd gellid gwneud trefniadau. Mae'n debygol y bydd y dyddiadau rhwng 10 a 14 Mehefin 2024, gyda dwy neu dair noson yn y wlad.

Os oes gennych ddiddordeb, e-bostiwch:

Rob Tomlinson robtomlinson7@gmail.com ;

Martin Browning martin@mbrowning.co.uk

neu Dave Warner davidcritchleywarner@outlook.com

**53 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog.**

Rhoddwyd ymddiheuriadau i swyddogion.

Caiff y diweddariadau eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

**54 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth.**

Nid oedd y Swyddog yn bresennol, ni roddwyd diweddariad.

**55 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Adroddodd Phil Flower fod y swm a gasglwyd ar gyfer apêl y pabi yn Abertawe yn 2023 wedi bod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Amlinellodd fod y lansiad yn Neuadd Branwyn gyda'r Arglwydd Faer wedi bod yn ddechrau gwych i'r apêl ac roedd cyfranogiad grwpiau cyn-filwyr gwahanol hefyd wedi bod yn llwyddiant mawr.

Byddai manylion y digwyddiadau a gynlluniwyd ar gyfer 2024 yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

Amlinellodd y bydd y Lleng Brydeinig Frenhinol yn lansio cynnyrch i nodi 80 o flynyddoedd ers D-Day ym mis Mehefin ac roedd wedi cysylltu â Chanolfan y Quadrant yn gofyn i gael stondin yn yr ardal ganol i werthu eitemau ac i godi ymwybyddiaeth o grwpiau cyn-filwyr.

Nododd Clive Prior fod y cysylltiad â grwpiau'r cyn-filwyr wedi gweithio'n dda iawn, a byddai gwaith cynllunio cynnar yn dechrau'n fuan ar gyfer digwyddiadau eleni. Mae croeso i bob grŵp cyn-filwyr gymryd rhan.

Alabare

Dywedodd Michelle Mills fod gan ei sefydliad un swydd wag ar hyn o bryd ar gyfer cyn-filwr unigol yn Bernard Street, Abertawe, gellir e-bostio hi yn m.mills@alabare.co.uk

Veterans RV/So Fit

Amlinellodd Paul Smith erthygl ddiweddar *Wales Online* a oedd yn ymwneud â'r grwpiau syrffio a'r grŵp ymdrochi/nofio. Roedd y niferoedd a oedd yn bresennol wedi codi o ganlyniad i'r erthygl ac mae'r poblogrwydd yn parhau i dyfu ac mae croeso i bawb.

Amlinellodd y cysylltiad a ddatblygwyd gydag Alabare a oedd wedi arwain at chwe chyn-filwr ychwanegol yn mynd i sesiwn ar y penwythnos.

Nododd Phil Jones eu bod yn parhau i ddarparu sesiynau iechyd meddwl i blant milwyr yn ysgolion Abertawe. Gellir cysylltu ag ef hefyd am gymorth a chyngor ar gyfer sefydliadau a grwpiau sy'n ceisio ennill achrediad.

Nododd fod cyllid wedi cael ei sicrhau yn ddiweddar iawn gan y Cyngor i gefnogi'r sesiynau dŵr oer ymhellach ac i drefnu taith i'r lagŵn glas yn Sir Benfro ar gyfer cyn-filwyr.

Cyngor Abertawe

Adroddodd y Cadeirydd fod yr awdurdod yn anelu at Safon Gwobr Aur, gofynnwyd ac anogwyd pob grŵp, sefydliad neu unigolyn i fynd i gyfarfod Fforwm Cyn-filwyr y Bwrdd Iechyd. Amlinellodd ei bod hi a Spencer ill dau wedi dod i'r cyfarfodydd ac mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn annog grwpiau etc. i fod yn bresennol.

Amlinellodd fod y Weinyddiaeth Amddiffyn am gael rhagor o gyfarfodydd rhanbarthol yn hytrach na chyfarfodydd awdurdod unigol.

Gellir dosbarthu'r ddolen i'r cyfarfod i Aelodau'r Panel maes o law.

Fighting With Pride

Cyfeiriodd Ruth Birch at y Safon Balchder mewn Cyn-filwyr y gall aelodau'r panel wneud cais i ymuno a chofrestru ar ei chyfer.

Mae'r safon yn dangos bod gan grwpiau/sefydliadau etc. yr ymwybyddiaeth gywir o faterion LHDT.

Byddai'r manylion llawn yn cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.50 pm

**Cadeirydd**